

CYFARFOD: **Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**
DYDDIAD: **14 Ionawr 2022**
PWNC: **Rheolau Sefydlog a Chyfansoddiad**
AWDUR: **Iwan Evans Swyddog Monitro – Cyngor Gwynedd**

PENDERFYNIAD A GEISIR:

- 1. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog ar gyfer y Cyd Bwyllgor Corfforedig a derbyn y cyfeiriad ynglŷn a sefydlu Cyfansoddiad.**
 - 2. Dirprwyo hawl i'w Swyddog Monitro wneud newidiadau golygyddol i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer eu cyhoeddi.**
-

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

- Mae Rheoliadau Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig ("CBC") wneud Rheolau Sefydlog er rheoleiddio ei weithrediadau a busnes.
- Mae bwriad yn y drafft o Reoliadau Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2022 y bydd gofyn i CBC baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad.
- Bwriad yr adroddiad yma yw sefydlu Rheolau Sefydlog Cychwynnol mewn templed y gellir ei ymestyn i greu Cyfansoddiad sydd yn cyfarch gofynion ond yn gymesurol a natur a maint CBC.

CEFNDIR

- Gan gynnwys Rheoliadau sefydlu CBC y Gogledd ar y 1af o Ebrill 2021 mae eisoes 3 set o Reoliadau llywodraethu wedi dod i rym. Yn ogystal a'r rheoliadau sefydlu mae 2 set o Reoliadau Cyffredinol wedi eu mabwysiadu gyda rhif 2 yn dod i rym yn helaeth ar y 3ydd o Ragfyr 2021. Mae ymgynghoriad ar Reoliadau Cyffredinol (3ydd) ychwanegol newydd gau cyn y Nadolig a disgwylir y byddent yn dod i rym yn y Gwanwyn. Mae'n bosib bydd un cyfrol arall.
- Gellir gweld felly fod sefydlu trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer y CBC yn gorfod ymateb a datblygu gyda cefndir o sefyllfa gyfreithiol sydd yn parhau i esblygu. Mae rhai agweddau megis Trosolwg a Chraffu newydd fod yn destun ymgynghoriad. Yn yr un modd nid yw'r gyfundrefn Cod Ymddygiad a Phwyllgor Safonau wedi ei gadarnhau eto. Mae'r rhan yma mewn *italics* yn y Rheoliadau Sefydlog ar y ddamcaniaeth y bydd y trefniadau yn adlewyrchu yr ymgynghoriad ond nid yw hyn wedi ei gadarnhau.
- Mae'r Rheoliadau sydd mewn bodolaeth hyd yn hyn yn cyfuno dau elfen, trefniadau sydd benodol ar gyfer CBC a rheoliadau sydd yn ymestyn

dyletswyddau a gofynion sydd ar Brif Gyngorau at y CBC. Mae'r rhain yn cynnwys nid yn unig materion megis penodi Swyddogion Statudol ond hefyd o safbwynt llywodraethu ystod o faterion megis trefniadau staffio, gofynion sydd yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

7. Amcan yr argymhelliad yma yw creu Rheolau Sefydlog cychwynol fydd yn caniatáu i'r CBC gynnal ei weithgareddau sefydlu mewn modd sydd yn cydfynd a'r gofynion statudol creiddiol a chreu platfform ymarferol hyblyg all ddatblygu wrth i'r sefydlu yn ymlaen.

8 . SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro

I'w darparu yn y cyfarfod

Y Pennaeth Cyllid

I'w darparu yn y cyfarfod